Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Stebonheath
# Heol Marble Hall
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA15 1NB

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Stebonheath yn Llanelli mewn ardal hir sefydledig sy'n ardal dosbarth gweithiol i raddau helaeth. Mae 311 o ddisgyblion cyfwerth ag amser llawn yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae 12 dosbarth, yn cynnwys un dosbarth meithrin. Daw dau y cant o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg. Mae pump y cant o'r disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae dau ddeg chwech y cant o'r disgyblion wedi'u cofrestru i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Nodir bod gan dri deg dau y cant o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae un deg naw y cant o'r disgyblion ar y gofrestr gweithredu gan yr ysgol a mwy ac mae gan un y cant ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Stebonheath yn 2010-2011 yw £3,207, sy'n cymharu ag uchafswm o £17,415 ac isafswm o £3,014 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r ysgol yn safle 102 o ran cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 114 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2010, ac roedd yn ddirprwy bennaeth yr ysgol cyn hynny.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Stebonheath yn ysgol dda ac mae ei pherfformiad cyffredinol yn dda oherwydd:

- bod llawer o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag ADY, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn gyffredinol wedi cael canlyniadau da yng nghyfnod allweddol 2 ac wedi cael canlyniadau gwell yng nghyfnod allweddol 1;
- bod yr ysgol yn darparu ystod gyfoethog ac amrywiol o brofiadau dysgu; a
- bod yr addysgu yn cynnwys cryfderau sylweddol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella Ysgol Gynradd Gymunedol Stebonheath yn dda oherwydd:

- bod gan yr ysgol arweinyddiaeth effeithiol a blaengar iawn;
- bod cynllunio cyson ac ystyrlon ar gyfer gwella yn seiliedig ar brosesau hunanarfarnu cryf;
- bod mentrau a datblygiadau diweddar yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ac ansawdd; a
- bod cynnydd da iawn wedi bod wrth fynd i'r afael â'r holl argymhellion ond un o'r adroddiad arolygu blaenorol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i Ysgol Gynradd Gymunedol Stebonheath:

A1 leihau'r bwlch yng nghyrhaeddiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 1;

A2 gwella cyrhaeddiad i lefel fwy cyson mewn gwyddoniaeth;

A3 gwella'r cynllunio ar gyfer gwasanaethau a sicrhau bod gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli yn cael eu bodloni'n llawn;

A4 cryfhau rôl llywodraethwyr ymhellach wrth herio perfformiad yr ysgol; ac

A5 ymestyn y trefniadau rheoli perfformiad sydd ar waith i staff addysgu gefnogi staff.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiadau gwaelodlin yn dangos bod mwyafrif y disgyblion yn y rhan fwyaf o flynyddoedd yn dechrau'r ysgol gyda lefel medrau sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Mae llawer o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag ADY, yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Er bod canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 wedi gwella rhwng 2007 a 2010, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau gofynnol ym mhynciau craidd Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn parhau i fod yn is na'r ffigurau ar gyfer ysgolion tebyg a ffigurau Cymru gyfan. Yn gyffredinol, mae merched yn gwneud yn llawer gwell na bechgyn.

Mewn dwy o'r blynyddoedd hynny, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi cael canlyniadau da mewn Saesneg a mathemateg o'u cymharu ag ysgolion tebyg a ffigurau Cymru gyfan. At ei gilydd, nid yw perfformiad disgyblion mewn gwyddoniaeth, dros y pedair blynedd diwethaf, wedi cymharu cystal â pherfformiad ysgolion tebyg.

O'i gymharu ag ysgolion tebyg, nid oedd perfformiad ar ddiwedd cyfnodau allweddol cystal yn 2010, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mewn cyferbyniad â blynyddoedd eraill, cafodd bechgyn ganlyniadau gwell na merched. Gwnaeth y bechgyn ychydig yn well na chyflawniad cyfartalog bechgyn mewn ysgolion tebyg, ond fe wnaeth 13% yn llai o ferched na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg gyrraedd y lefelau gofynnol yn y pynciau craidd. Mae'n debygol iawn bod canran uwch na'r canran arferol o ferched ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yn gyfrifol am y gwahaniaeth hwn.

Fel arfer, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uchaf yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, ond yn 2010, roedd yn llai na hanner hyn. Nid yw'n bosibl cymharu'r canlyniadau ar gyfer 2011 â chanlyniadau ysgolion tebyg neu gyda ffigurau Cymru gyfan eto.

Eleni, cafodd disgyblion cyfnod allweddol 1 ganlyniadau gwell mewn Saesneg a gwyddoniaeth na mewn unrhyw un o'r pedair blynedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 2, roedd y canlyniadau mewn mathemateg yn cyd-fynd â'r canlyniadau gorau yn y blynyddoedd diwethaf, ond roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefelau disgwyliedig yn genedlaethol mewn Saesneg a gwyddoniaeth yr isaf yn y pedair blynedd diwethaf.

Mewn perthynas ag oedran a gallu, mae mwyafrif o ddysgwyr yn darllen ac yn ysgrifennu'n dda yn Saesneg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion hyn yn darllen yn hyderus ac yn rhugl. Mae'r mwyafrif yn ysgrifenwyr cymwys ac mae llawer ohonynt yn sillafu ac yn atalnodi'n gywir. Maent yn ysgrifennu mewn fformatau amrywiol, at ddibenion gwahanol ac mewn arddulliau gwahanol. Yn gyffredinol, mae gan ddysgwyr amgyffrediad cadarn o reolau gramadeg ac mae llawer ohonynt yn defnyddio terminoleg bwnc berthnasol. Mae'r rhan fwyaf o

ddisgyblion yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn dda ac yn cymryd gofal da wrth ei gyflwyno.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwrando'n dda iawn ac yn siarad yn glir, gan gyfleu eu meddyliau a'u teimladau yn hyderus. Gallant esbonio'r hyn y maent yn ei ddysgu a gwneud sylwadau meddylgar mewn trafodaethau dosbarth a grŵp.

Mae safonau medrau disgyblion mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda.

Am y tro cyntaf yn 2010, cafodd disgyblion eu hasesu mewn Cymraeg ail iaith. Cyrhaeddodd 14% yn unig y lefel ddisgwyliedig, sef llai na hanner y canrannau ar gyfer naill ai ysgolion tebyg neu ar gyfer Cymru. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2011 wedi gwella, gyda 30% o ddisgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn genedlaethol.

O ystyried cefndir ieithyddol yr ysgol, mae nifer gynyddol o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd da mewn Cymraeg. Maent yn defnyddio ymadroddion Cymraeg bob dydd syml yn eu cyd-destun a gallant ymgysylltu'n dda pan fydd y rhan fwyaf neu'r holl addysgu yn Gymraeg. Cyfyngedig yw'r dilyniant ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar hyn o bryd.

**Lles: Da**

Mae'r ysgol yn amgylchedd hapus a gofalgar, lle mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac maent yn gwybod gyda phwy i siarad os byddant yn poeni neu'n gofidio.

Mae pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda wrth iddynt symud o gwmpas yr ysgol. Mae ganddynt berthynas dda â'r staff, ac maent yn foesgar a chwrtais ar y cyfan wrth siarad ag oedolion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Maent yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu ac yn cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau. Mae disgyblion yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau, gan ddangos parch at safbwyntiau pobl eraill wrth iddynt rannu syniadau. Mae pob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen yn cymryd rhan yn effeithiol mewn cynllunio eu gweithgareddau dysgu. Mae'r dull hwn yn cael ei ddatblygu yng nghyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol gyngor ysgol ac eco gyngor gweithgar; mae'r ddau gorff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu syniadau ac yn eu gwerthfawrogi. Maent yn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar welliannau o amgylch yr ysgol. Er enghraifft, mae cyngor yr ysgol wedi bod yn allweddol yn gwella amser chwarae i bob disgybl trwy brynu ystod o offer a chyflwyno rheolau cae chwarae newydd. Mae'r eco gyngor yn arwain prosiectau a gweithgareddau fel ymchwilio a thrin data ynglŷn â dŵr a defnyddio trydan. Caiff papur, plastig, gwastraff bwyd, dillad a ffonau symudol eu hailgylchu. Mae'r ffaith fod 'Mainc Cyfeillion' ar y buarth yn dangos sut gall y disgyblion ddangos gofal a phryder at ei gilydd.

Mae gan bob disgybl ddealltwriaeth dda o'r angen i wneud ymarfer corff a bwyta'n iach. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae llawer o ddisgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys y gymuned ehangach.

Mae ffigurau presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn debyg i gyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r cyfraddau presenoldeb ar gyfer 2010-2011, sef 94%, yn cymharu'n dda â chyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod amrywiol o brofiadau dysgu trwy gwricwlwm eang a chytbwys. Caiff dysgu yn y Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 2 ei gynllunio'n glir o amgylch lefelau amrywiol y ddarpariaeth, ac mae'n sicrhau rhaglen o ansawdd da iawn. Ceir arwyddion cadarnhaol hefyd fod strategaethau llythrennedd a gyflwynwyd yn ddiweddar yn galluogi disgyblion ar draws yr ysgol i wneud cynnydd ar lefel a chyflymdra sydd fwyaf addas ar eu cyfer.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen ddiddorol iawn o ymweliadau addysgol, yn lleol a thu hwnt, yn cynnwys teithiau i Lundain a gwledydd Ewropeaidd. Ceir ymweliadau rheolaidd hefyd gan siaradwyr gwadd ac ystod fuddiol o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cynlluniedig a dychmygus o'i hamgylchedd. Mae'r gweithgareddau hyn yn atgyfnerthu'r dysgu'n llwyddiannus iawn.

Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn drylwyr ac effeithiol. Mae ansawdd cynlluniau gwaith pynciau yn dda ac maent yn croesgyfeirio medrau gyda'r meysydd gwybodaeth yn y rhaglenni astudio. Mae'r ysgol wedi datblygu dull sy'n gynyddol effeithiol ar gyfer integreiddio'r 'Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru'; mae hwn yn llwyddo i hyrwyddo parhad a dilyniant mewn cyfathrebu, rhifedd a TGCh.

Rhoddir cymorth wedi'i dargedu'n dda i ddisgyblion mewn ystod o fedrau fel ysgrifennu mewn fformatau amrywiol, cymhwyso medrau rhifedd, archwilio data, cynnal ymholiadau a chofnodi canlyniadau ymchwiliadau. Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd amrywiol a diddorol i ddysgu am eu hardal ac am Gymru, ei hanes a'i diwylliant. Mae hyn yn cynnwys pwyslais cynyddol ar hyrwyddo dwyieithrwydd.

Mae'r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn y cwricwlwm a'i arferion dyddiol. Dyfarnwyd y faner werdd eco iddi yn ddiweddar. Mae'r ysgol hefyd yn meithrin synnwyr cryf o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy ei chysylltiadau rhyngwladol amrywiol, ei hymrwymiad i gefnogi pobl mewn angen a thrwy ddathlu'r amrywiaeth yn ei hysgol a'i chymuned ei hun.

**Addysgu: Da**

Mae addysgu ar draws yr ysgol yn gyson dda. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel a gwybodaeth bynciol gadarn. Maent yn defnyddio ystod effeithiol o

strategaethau dysgu ac addysgu sy'n hyrwyddo dewis ac annibyniaeth disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff llawer o brofiadau cyfoethog ac ysgogol eu paratoi ar gyfer disgyblion.

Caiff gwersi eu paratoi'n dda iawn a'u trefnu'n effeithiol gydag amcanion dysgu clir, adnoddau o ansawdd da, a chysylltiadau uniongyrchol ag asesu a medrau allweddol.

Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn nodi'r hyn y maent am i ddisgyblion fod wedi'i gyflawni erbyn diwedd y sesiwn. Rhoddir sylw manwl iawn ym mhob dosbarth i weddu gwaith i oedran a lefelau gallu disgyblion, gan gynnwys y disgyblion mwy abl a llai abl. Mae'r rhain yn nodweddion cryf iawn.

Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu ac fe gaiff ymddygiad ei reoli'n dda iawn. Mae llawer o blant yn gyfforddus â gosod eu targedau eu hunain ac mae llawer ohonynt yn nodi meini prawf priodol ar gyfer gwella.

Mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd. Yn gyffredinol, maent yn olrhain cynnydd yn ofalus ar lefel unigol a grŵp. Caiff strategaethau asesu ar gyfer dysgu eu datblygu'n dda a'u defnyddio'n effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio strategaethau'n dda i gynllunio ar gyfer anghenion eu disgyblion.

Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Mae rhieni a gofalwyr yn teimlo bod yr ysgol yn eu hysbysu'n dda ynglŷn â chynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae disgyblion a rhieni yn gwerthfawrogi amgylchedd diogel a gofalgar yr ysgol.

Mae gan yr ysgol bolisïau priodol a threfniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'n delio'n dda ag unrhyw faterion a phryderon ynglŷn â bwlio, ac mae'n cefnogi disgyblion yn dda iawn wrth iddynt ddatblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd. Caiff manteision diet iach a ffordd iach o fyw eu hyrwyddo'n dda, ac mae disgyblion yn gweithredu yn unol â'r wybodaeth hon trwy ddewis byrbrydau iach o'r siop fwyd.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i ddatblygu lles moesol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae'n defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau yn fedrus i gefnogi disgyblion i reoli eu teimladau a gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at wella agweddau, hyder ac ymddygiad disgyblion a'u gallu i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol mewn grwpiau neu gyda phartneriaid.

Nid yw datblygiad ysbrydol disgyblion wedi'i hyrwyddo cystal. Cyfyngedig yw'r cyfleoedd i fyfyrio'n dawel ar y testunau a'r materion dan sylw yn ystod cyfnodau o gyd-addoli. Nid yw'r cynllunio ar gyfer gwasanaethau yn ddigon manwl gywir bob amser. Mae rhai disgyblion yn colli'r gwasanaeth o bryd i'w gilydd gan eu bod yn ymgymryd â chyfrifoldebau eraill. Nid yw'r trefniant hwn yn bodloni trefniadau statudol. Mae gan yr ysgol ystod o strategaethau i hyrwyddo lefelau da o bresenoldeb ac mae wedi rhoi system wobrwyo ar waith i atgyfnerthu hyn.

Mae gan yr ysgol drefniadau nodi a monitro clir ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae staff yn cynnwys disgyblion wrth gytuno ar dargedau ar gyfer cynlluniau addysg unigol, ac fe gaiff rhieni eu hannog i fynychu cyfarfodydd er mwyn adolygu'r targedau hyn. Mae'r trefniadau ar gyfer disgyblion ag ADY yn cydymffurfio â'r cod ymarfer ar gyfer anghenion addysgol arbennig.

Caiff grwpiau o ddisgyblion eu targedu ar gyfer ymyriadau penodol, sy'n gwella eu medrau sylfaenol yn llwyddiannus. Mae'r cymorth targedig mewn llythrennedd wedi cyfrannu at safonau cyflawniad gwell. Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion ag anghenion mwy cymhleth yn llwyddiannus ac yn eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol.

Mae'r hyfforddiant, yr arweiniad a'r cymorth y mae'r ysgol wedi'u cael o weithio'n agos ag amrywiaeth o wasanaethau arbenigol wedi sicrhau bod anghenion dysgu pob disgybl ag ADY yn cael eu bodloni. Mae cynorthwywyr addysgu yn rhoi cymorth o ansawdd da i ddisgyblion ag ADY, ac mae hyn wedi cyfrannu at wella hyder disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff pob un o'r disgyblion eu gwerthfawrogi a'u trin yn gyfartal. Mae trefniadau sydd wedi cael eu cynllunio a'u gweithredu yn dda iawn yn galluogi'r nifer fach o ddysgwyr ag anableddau i fanteisio ar holl feysydd yr ysgol, y cwricwlwm a'r gweithgareddau allgyrsiol. Caiff amrywiaeth ei gwerthfawrogi a'i dathlu. Mae gan yr ysgol bolisïau priodol ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb ac mae'n cysylltu'r rhain yn effeithiol â'r cynllun gwella ysgol.

Ceir ystod eang ac amrywiaeth o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu; caiff y rhain eu gweddu'n dda i anghenion disgyblion. Caiff safle'r ysgol ei gadw mewn cyflwr da iawn. Mae arddangosiadau lliwgar ac addysgiadol helaeth mewn ystafelloedd dosbarth a mannau cymunedol yn dathlu gwaith a chyflawniadau disgyblion ac yn adlewyrchu rhan yr ysgol mewn nifer o bartneriaethau a mentrau.

Caiff tir yr ysgol ei gynnal yn dda a chafodd ei ddatblygu ymhellach yn ddiweddar i annog dysgu a chwarae dychmygus a chreadigol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arweinydd effeithlon a threfnus. Mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n arwain yn ôl esiampl. Mae ganddo amgyffrediad da iawn o anghenion yr ysgol ac mae wedi ymrwymo i fynd â'r ysgol ymlaen i lwyddo ymhellach trwy wella safonau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r ysgol yn datblygu strwythur arweinyddiaeth sy'n fwy dosbarthol, fel bod pob un o'r athrawon a'r staff cymorth yn ymwneud yn agos â gwneud penderfyniadau. Mae

pob un o'r staff yn gweithio'n dda fel tîm er mwyn datblygu darpariaeth a chodi safonau disgyblion. Mae ganddynt ran amlwg mewn diffinio cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac fe gaiff hyn, yn ei dro, effaith gadarnhaol ar ethos yr ysgol.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Mae ganddi berthynas dda â'i theulu diffiniedig o ysgolion (grŵp o ysgolion sydd â nodweddion tebyg) ac mae'n gwneud addasiadau dychmygus i amgylchedd yr ysgol i wella cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ymhellach. Mae'r trefniadau i ddiweddaru darpariaeth y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 yn unol â Chwricwlwm 2008 yn fwyfwy dylanwadol mewn cynllunio a darpariaeth.

Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac mae ganddynt ddiddordeb cryf ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Maent yn ymgymryd â hyfforddiant addas. Mae llywodraethwyr yn dechrau cynnig mwy o her i'r ysgol mewn meysydd penodol. Nid yw eu rôl fel ffrind beirniadol i'r ysgol wedi'i sefydlu'n gyson eto.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau eithriadol o dda ar gyfer hunanarfarnu. Mae gan dîm arweinyddiaeth yr ysgol ddarlun clir iawn o berfformiad yr ysgol ac mae'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn graff. Mae'r ysgol yn gofyn safbwyntiau rhieni, gofalwyr, disgyblion a staff yn rheolaidd. Mae'r cynlluniau gwella yn cynnwys ffocws, maent yn realistig ac yn gysylltiedig ag amser. Cânt eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o weithgareddau monitro trylwyr, gan gynnwys arsylwadau gwersi manwl ac arfarnol gan uwch arweinwyr. Gwneir defnydd da iawn o wybodaeth am asesu i osod targedau ar gyfer gwella a nodi grwpiau o ddisgyblion a allai fod yn tanberfformio. Caiff yr holl wybodaeth a gesglir ei defnyddio'n effeithiol i greu cynllun gwella ysgol clir a manwl.

Defnyddir prosesau hunanarfarnu yn bwrpasol i ddylanwadu ar safonau a darpariaeth. Caiff hyn ei wella ymhellach gan y ffordd hynod effeithiol y mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr eraill yn rheoli datblygiad proffesiynol pob un o'r staff.

Ceir cysylltiadau sefydledig ag ysgolion eraill yn yr ardal a chyda'r teulu o ysgolion. Mae'r rhwydweithiau hyn o arfer broffesiynol yn cyfrannu'n dda i ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus gyda rhieni a gofalwyr ac mae'n eu hysbysu'n dda. Mae'n gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau, yn cynnwys yr awdurdod lleol a'r gymuned leol. Mae'r partneriaethau hyn yn helpu cyfoethogi a chefnogi dysgu a lles pob disgybl.

Mae'r cysylltiadau a gafodd eu meithrin gyda meithrinfa annibynnol yn hyrwyddo cyfnod ymsefydlu esmwyth wrth i blant ddechrau yn yr ysgol. Ceir cysylltiadau cryf

gyda'r ysgol uwchradd y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn trosglwyddo iddi, yn enwedig o ran darparu cymorth ar gyfer lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae cynlluniau trosglwyddo a ystyriwyd yn dda ac sydd wedi'u hamlinellu'n glir yn sicrhau yn effeithiol bod disgyblion yn cael eu paratoi ar gyfer addysg uwchradd. Ceir prosesau safoni systematig ar gyfer asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 sy'n cynnwys staff o'r clwstwr lleol o ysgolion cynradd, yr ysgol uwchradd a'r awdurdod lleol.

Mae cysylltiadau cryf gyda busnesau lleol yn codi ymwybyddiaeth disgyblion am fyd gwaith ac yn eu cyflwyno i fedrau newydd. Er enghraifft, gweithiodd disgyblion gyda busnesau lleol yn ddiweddar i wella amgylchedd awyr agored yr ysgol a datblygu mentrau cynaliadwy. Ceir cysylltiadau hirsefydledig hefyd gyda'r sefydliadau addysg bellach a'r sefydliadau hyfforddiant i athrawon rhanbarthol.

Mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn prosiect Comenius llwyddiannus ers rhai blynyddoedd sydd wedi helpu sefydlu partneriaethau rhyngwladol. Mae'r prosiect yn cynnwys ysgolion o Loegr, Lithwania, Bwlgaria, Twrci a'r Eidal. Mae'r partneriaethau hyn wedi arwain at brofiadau cyfoethog i ddisgyblion a staff fel ei gilydd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff cyllideb yr ysgol ei rheoli'n effeithiol gyda ffocws cadarn a chyson ar gysylltu penderfyniadau am wariant â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Ceir ystod eang a phriodol o adnoddau dysgu yn yr ysgol, yn cynnwys adnoddau TGCh y mae eu hansawdd yn gynyddol uchel.

Mae nifer ddigonol o athrawon cymwys a staff cymorth. Caiff y rhain eu defnyddio'n effeithiol i sicrhau bod rhaglen ddysgu sy'n cael ei gweddu'n gynyddol i anghenion disgyblion unigol yn cael ei chyflwyno yn y ffordd orau. Mae pob un o'r staff yn cyfrannu'n dda iawn at waith yr ysgol.

Mae dau gynhorthwy-ydd addysgu yn cyflenwi yn lle athrawon er mwyn iddynt allu ymgymryd â'r dyraniad statudol o amser cynllunio, paratoi ac asesu. Mae'r trefniadau hyn sydd wedi'u sefydlu'n dda, yn gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol. Cânt effaith gadarnhaol ar ansawdd y cynllunio a'r asesu.

Mae'r ysgol yn nodi ac yn bodloni anghenion pob un o'r staff trwy werthuso rheolaidd, sy'n cynnwys targedau rheoli perfformiad diffiniedig ar gyfer staff addysgu, ond nid ar gyfer staff cymorth eto.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian oherwydd y cynnydd a wneir gan lawer o ddisgyblion, y defnydd effeithlon ac effeithiol a wna o'i chyllid, ystod eang y profiadau dysgu y mae'n eu cynnig, a lefel uchel y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir ganddi.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwodd nifer fach o rieni'r holiadur.  Maent yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r ysgol. Mae pob un o'r rhieni o'r farn fod y plant yn ymddwyn yn dda a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.  Mae cytundeb 100% bod plant yn ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwneud cynnydd da.  Mae pob un ohonynt hefyd o'r farn fod yr addysgu'n dda ac maent yn teimlo'n gyfforddus yn mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.  Nid yw ychydig iawn ohonynt yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion neu maent yn credu nad oes ystod ddigon da o deithiau neu ymweliadau addysgol.  Mae pob un ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ganmoliaethus iawn ynglŷn â'u hysgol.  Mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod yr addysgu'n dda, eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.  Mae'r un gyfran o'r farn fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio a'u bod yn teimlo'n ddiogel.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn credu bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n dda.  Fodd bynnag, mae traean o'r disgyblion (cyfrannau ychydig yn uwch o fechgyn na merched) yn teimlo bod yna adegau pan fydd ymddygiad dysgwyr eraill yn eu rhwystro rhag bwrw ymlaen â'u gwaith.  Yn ychwanegol, nid yw chwarter o ddisgyblion (dwywaith y canran o fechgyn a merched) yn credu bod disgyblion eraill yn ymddwyn cystal amser chwarae ac amser cinio.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu bod yr ysgol yn eu helpu i fyw bywydau iach.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Alun Morgan | Arolygydd Cofnodol |
| Enir Morgan | Arolygydd Tîm |
| Thomas Ivor Petherick | Arolygydd Lleyg |
| Rhian Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Julian Littler | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |